# Arolygiad dan Adran 10
# Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

**Ysgol Gynradd Tudweiliog**
**Tudweiliog**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 8ND**

**Rhif yr Ysgol: 6612112**

**Dyddiad yr Arolygiad: 06/02/06**

**gan**

**Len Jones**
**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 10 Ebrill, 2006**

**Dan rif contract Estyn: 1109705**

**Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
* ysgolion cynradd;
* ysgolion uwchradd;
* ysgolion arbennig;
* unedau cyfeirio disgyblion;
* ysgolion annibynnol;
* addysg bellach;
* dysgu oedolion yn y gymuned;
* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
* AALlau;
* addysg a hyfforddiant athrawon;
* dysgu yn y gwaith;
* cwmnïau gyrfaoedd; ac
* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2005 Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Tudweiliog fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Tudweiliog rhwng 06/02/06 a 08/02/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan Len Jones. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

**Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B 1 | B 2 | B 3 | B 4 | B 5 | B 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B 7 | B 8 | B 9 | B 10 | B 11 | B 12 | B 13 | B14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 | 18-19 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | 6 |
| **Crynodeb** | | 7 |
| **Argymhellion** | | 12 |
| **Safonau** | | 13 |
| Cwestiwn Allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 13 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | | 16 |
| Cwestiwn Allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 16 |
| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 18 |
| Cwestiwn Allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 19 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | 21 |
| Cwestiwn Allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 21 |
| Cwestiwn Allweddol 6: | Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 22 |
| Cwestiwn Allweddol 7: | Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 23 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | | 24 |
| Dan bump oed | | 24 |
| Cymraeg iaith cyntaf | | 26 |
| Mathemateg | | 28 |
| Technoleg gwybodaeth | | 30 |
| Hanes | | 31 |
| Daearyddiaeth | | 33 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | | 34 |
| **Atodiadau** | | 35 |
| 1 | Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 35 |
| 2 | Data a dangosyddion ysgol | 36 |
| 3 | Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 37 |
| 4 | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 38 |
| 5 | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 39 |

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Tudweiliog, a gynhelir gan awdurdod addysg lleol Gwynedd, ym mhentref Tudweiliog, sydd tua phedair milltir o Nefyn. Mae plant y pentref ei hun yn ei mynychu, yn ogystal â phlant o bentrefi bychain cyfagos, megis Dinas a Llangwnnadl.

2. Mae'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol yn un wledig, amaethyddol ac yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Fe'i hystyrir yn ardal ddifreintiedig yn economaidd. Er hyn, 7% yn unig o'r disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim, sy'n sylweddol is na'r ffigurau sirol a chenedlaethol.

3. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 33 disgybl ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys pedwar o blant meithrin sy'n mynychu am ddwyawr yn y boreau.

4. Bu gostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion ers yr arolygiad diwethaf, yn Chwefror, 2000. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn rhagweld y bydd cynnydd eto yn y niferoedd o hyn ymlaen.

5. Mae dwy athrawes lawn-amser a dwy athrawes ran-amser yn addysgu'r disgyblion. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn; ar hyn o bryd mae pum disgybl ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

6. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi, 1996.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Ymysg y blaenoriaethau datblygu am y flwyddyn 2005-06, nodwyd:

   - sefydlu Cyngor Ysgol;
   - datblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg;
   - adolygu ymddygiad ac ymagweddau disgyblion;
   - adolygu cynlluniau gwaith a'r profiadau cwricwlaidd.

## Crynodeb

8. Mae Ysgol Tudweiliog yn sefydliad sydd yn gaffaeliad mawr i’r gymuned leol, ac mae rhai o’i nodweddion gorau yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr gan y rhieni a chan aelodau’r gymuned.

9. Mae canfyddiadau’r tîm arolygu yn cytuno â’r graddau a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu ym mhob un o’r saith cwestiwn allweddol.

**Tabl o’r graddau a ddyfarnwyd**

| | **Cwestiwn allweddol** | **Gradd yr arolygiad** |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 2 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw’r addysgu, yr hyfforddi a’r asesu? | 2 |
| 3 | Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach? | 2 |
| 4 | Pa mor dda yw’r gofal, yr arweiniad a’r cymorth i ddysgwyr? | 2 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth strategol? | 2 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 2 |
| 7 | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 2 |

**Safonau**

10. Mae safonau Plant o dan 5 oed fel a ganlyn:

| Maes Profiad | Oed Meithrin | Oed Derbyn |
|---|---|---|
| Iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 3 | Gradd 2 |

11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer Plant Dan 5 Oed yn briodol i’w anghenion, a gwna’r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

12. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, barnwyd y safonau yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| **Pwnc** | **Cyfnod Allweddol 1** | **Cyfnod Allweddol 2** |
|---|---|---|
| Cymraeg | Gradd 2 | Gradd 3 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 3 |
| Technoleg Gwybodaeth | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |

13. Yn y gwersi a arsylwyd, roedd safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| **Safonau cyflawniad** | **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| | 0% | 71% | 29% | 0% | 0% |

14. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef bod 95% o wersi yn radd 3 neu'n well, a bod 65% o wersi yn radd 2 neu'n well.

15. Gwna'r disgyblion anghenion addysgol arbennig gynnydd priodol, yn unol â'u gallu a'u haeddfedrwydd.

16. Mae plant Dan 5 oed a disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn deall sut i wella eu gwaith. Nid yw canran o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu'n ddigonol o fewn gwersi, o safbwynt ansawdd a threfn y cofnodi.

17. Mae Plant Dan 5 Oed yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a'u medrau mathemategol, tra maent yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu medrau technoleg a chyfathrebu.

18. Gwna disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 gynnydd da yn eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith, o safbwynt llafaredd a darllen, ac hefyd yn eu medrau mathemategol. Mae medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 1 yn datblygu'n dda, tra bod i fedrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2 nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

19. Mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dwyieithog ac yn manteisio ar brofiadau a ddarperir iddynt yn y ddwy iaith, a hynny o oedran cynnar.

20. Mae disgyblion yn manteisio ar brofiadau effeithiol a gweithgareddau cyson i wneud cynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Trwy eu hamrywiol gyfraniadau yn y gymuned leol a'u gwaith yn datblygu'r 'ardd fywyd gwyllt' maent yn datblygu gwerthoedd dinasyddiaeth priodol.

21. Yn 2005, roedd cyraeddiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, yn y pynciau a asesir, yn is na'r cyfartaledd sirol a chyfartaledd Cymru (2004). Priodolir hyn eleni i'r nifer bychan iawn o ddisgyblion oedd yn y garfan. Wrth gymharu'r canlyniadau â rhai ysgolion tebyg, o safbwynt niferoedd disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn y chwartel uchaf mewn Cymraeg a gwyddoniaeth, ond yn y chwartel isaf mewn mathemateg.

22. Yn 2005, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn arbennig o dda, gyda phob un yn llwyddo i ennill Lefel 4 neu Lefel 5 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau yn rhagori ar gyfartaleddau'r sir a chyfartaleddau Cymru. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg, o safbwynt disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn y chwartel uchaf ymhob pwnc.

23. Mae disgyblion drwy'r ysgol yn ymddwyn yn dda, yn ymagweddu yn briodol ac yn ymwneud yn dda â'i gilydd. Ymatebant yn effeithiol i ddisgwyliadau athrawon ac i ganllawiau'r ysgol. Mae'r drefn o 'bartneru' disgyblion hŷn gyda rhai ifanc ar gyfer rhai gweithgareddau yn un effeithiol.

24. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion dros y tri thymor diwethaf ychydig dan 94%, sydd yn foddhaol. Mae safonau prydlondeb ar ddechrau'r dydd, ac yn ystod sesiynau-addysgu, yn dda.

25. Gwna disgyblion gynnydd da yn eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfle cyfartal ac o'r angen i barchu traddodiadau a gwerthoedd gwahanol.

26. Mae dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn datblygu'n dda, ac yn cael ei atgyfnerthu gan ymweliadau pwrpasol, megis yr un a wnaed gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn ddiweddar i Bwllheli. Nid oes medrau menter amlwg yn cael eu gweithredu ganddynt, fodd bynnag.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

27. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd fod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 14% | 72% | 14% | 0% | 0% |

28. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan, sef fod 95% o addysgu yn y gwersi yn radd 3 neu'n well, a bod 65% yn radd 2 neu'n well.

29. Mae gan yr athrawon wybodaeth briodol am y pynciau a addysgir ganddynt, ac mae'r gwersi wedi eu seilio ar gynlluniau cadarn.

30. Mae'r berthynas dda rhwng athrawon, cymorthyddion a disgyblion yn cyfrannu at addysgu a dysgu effeithiol.

31. Yn y gwersi gorau, roedd yr athrawon yn rhannu nodau ac amcanion clir gyda'r disgyblion ar ddechrau'r gwersi, yn defnyddio adnoddau yn effeithiol, yn cynnig cyfle i'r disgyblion gyfrannu ar lafar ac i ymateb i dasgau symbylus.

32. Yn y gwersi lle'r oedd rhai diffygion, nid oedd cyflymder addas i'r gwersi ac nid oedd disgwyliadau priodol o safbwynt cyflawni tasgau o fewn amser penodol ac mewn modd digon graenus.

33. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn nhrefniadau'r ysgol ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd disgyblion. Ar ei orau, mae'r drefn o ymateb i waith disgyblion yn dda, ond ni cheir cysondeb sy'n arwain at ddealltwriaeth y disgyblion o'r modd y mae gwella eu gwaith.

34. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn llawn gwrdd â'r gofynion statudol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhieni.

35. Er bod arferion da yn y drefn o asesu a chofnodi cynnydd, nid oes cofnodion digon manwl yn cael eu cadw ar gyfer datblygiad cynnydd Plant dan 5 oed yn chwe maes y Canlyniadau Dymunol nac i gadw golwg ar gynnydd disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

36. Mae'r ysgol yn darparu'n dda wrth gwrdd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) y disgyblion sydd ar y Gofrestr AAA, ac yn cadw cofnodion priodol o'u cynnydd.

37. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a symbylus i'r disgyblion, gyda gweithgareddau'r dosbarth yn cael eu cyfoethogi gan ymweliadau, cyrsiau preswyl a chan gyfraniad gwirfoddolwyr mewn agweddau o'r cwricwlwm. Caiff pob disgybl gyfle i ymwneud â'r profiadau sy'n berthnasol i'w gweithgareddau yn y dosbarth.

38. Mae'r gweithgareddau a drefnir yn y gymuned, o safbwynt ymweliadau, cadwraeth a chynnal cyngherddau, yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

39. Mae'r rhieni oll yn gwerthfawrogi cyfraniad yr ysgol tuag at feithrin y gwerthoedd gorau yn eu plant, o safbwynt ymddygiad ac agweddau. Gwerthfawrogant hefyd ofal yr athrawon a'r oedolion eraill am eu plant. Er hyn, mae carfan fechan o rieni yn anniddig ynghylch ansawdd gwaith eu plant a'r modd y mae'r ysgol yn gweithredu'r drefn gwaith cartref.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

40. Mae'r pennaeth, y staff a'r corff llywodraethu yn rhannu'r un nodau addysgol ac yn cydweithio fel tîm i'w gwireddu. Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad pwrpasol ac yn ennyn cyfranogiad llawn ei chydweithwyr.

41. Mae gweithdrefnau'r ysgol yn seiliedig ar bolisïau niferus ac, yn gyffredinol, maent yn rhai cyfredol a gafodd eu hadolygu a'u haddasu yn lled ddiweddar.

42. Mae aelodau'r corff llywodraethu yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn awyddus iddi lwyddo fel sefydliad canolog yn y gymuned. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau gan y pennaeth. Hyd yma, nid ydynt yn monitro gweithrediad y cwricwlwm nac yn ymwneud â phrosesau hunan-arfarnu'r ysgol mewn modd digon ffurfiol a strwythuredig.

43. Mae dogfennaeth yr ysgol yn tystio i ddealltwriaeth dda o brosesau hunan-arfarnu; er hyn, nid yw rôl y cydlynwyr cwricwlaidd wedi ymwneud yn ddigonol â safonau ac ansawdd addysgu a dysgu.

44. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen drefnus, a'i blaenoriaethau datblygu wedi deillio o ganfyddiadau hunan-arfarnu blaenorol ac wedi eu seilio ar gynlluniau gweithredu bwriadus.

45. Mae'r cynnydd a wnaeth yr ysgol wrth ymateb i'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn gyffredinol dda.

46. Mae nifer ddigonol o athrawon cymwys yn yr ysgol, gan gynnwys dwy athrawes ran-amser, ac atgyfnerthir eu gwaith yn effeithiol gan gymorthyddion-dysgu a chan gyfraniad gwirfoddolwyr. Mae'r athrawon yn mynychu ystod o gyrsiau hyfforddiant er mwyn diweddaru eu dulliau a'u gwybodaeth.

47. Ceir darpariaeth dda o adnoddau yn yr ysgol a chaiff y disgyblion fynediad hwylus atynt. Mae'r Gymdeithas Rieni yn gwneud cyfraniadau ariannol tuag at brynu adnoddau ychwanegol.

48. Mae'r adeilad mewn cyflwr da ac yn cael ei gadw'n lân a destlus. Gwneir defnydd effeithiol o'r neuadd ac o'r gofod eang sydd yn ystafell ddosbarth cyfnod allweddol 2. Caiff addysg y disgyblion ei chyfoethogi gan ddatblygiad yr ardd-fywyd-gwyllt. Nodwyd un mater o 'iechyd a diogelwch' yn y cyfarfodydd ôl-arolygiad.

49. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn adolygu'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd, ac yn ystyried materion gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth am arian.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1. godi safonau Cymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2;

A2. godi disgwyliadau ynglŷn â chyflwyniad gwaith ac ansawdd yr hyn a gyflawnir yn ysgrifenedig gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2;

A3. gysoni'r dref asesu fel bod cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn cael ei gofnodi yn unol â'r hyn a argymhellir yn y polisi asesu;

A4. ddatblygu ymhellach gyfrifoldebau'r cydlynwyr cwricwlaidd, fel eu bod yn cadw golwg ar safonau yn draws-ysgol ac yn rhoi sylw i addysgu a dysgu;

A5. sicrhau bod y garfan fechan o'r rhieni anniddig yn cael eu bodloni ynghylch cyflawniadau eu plant, yn fwyaf penodol yng nghyfnod allweddol 2, ac ynghylch eu dealltwriaeth o'r drefn gwaith cartref.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

50. Mae canfyddiad y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

51. Mae'r safonau mewn gwersi yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Safonau cyflawniad | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| | 0% | 71% | 29% | 0% | 0% |

52. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well, a bod 65% o wersi yn dda neu'n well.

53. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer Plant Dan 5 Oed yn briodol i'w anghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

| PLANT DAN 5 | MEITHRIN |
|---|---|
| Datblygiad iaith a llythrennedd | Gradd 2 |
| Datblygiad rhifedd | Gradd 2 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 3 |
| Gwybodaeth am y byd | Gradd 2 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 2 |

| PLANT DAN 5 | DERBYN |
|---|---|
| Datblygiad iaith a llythrennedd | Gradd 2 |
| Datblygiad rhifedd | Gradd 2 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth am y byd | Gradd 2 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 2 |

54. Yn y pynciau a arolygwyd yng nghyfnod allweddol1 a chyfnod allweddol 2, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Cymraeg | Gradd 2 | Gradd 3 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 3 |
| Technoleg Gwybodaeth | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |

55. Mae Plant dan 5 oed a disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwneud cynnydd da o safbwynt cyrraedd eu potensial a chyflawni eu targedau dysgu. Nid yw nifer arwyddocaol o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyrraedd eu potensial nac ychwaith yn cyflawni'n dda wrth gofnodi eu gwaith.

56. Gwna'r disgyblion anghenion addysgol arbennig gynnydd priodol, yn unol â'u gallu a'u haeddfedrwydd.

57. Mae Plant Dan 5 oed yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a'u medrau mathemategol ac maent yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu medrau technoleg a chyfathrebu.

58. Gwna disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 gynnydd da yn eu medrau llafaredd a darllen yn y ddwy iaith, ac yn eu medrau rhifedd. Mae medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 1 yn datblygu'n dda, tra bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion ym medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

59. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dwyieithog ac yn manteisio ar brofiadau a ddarperir iddynt yn y ddwy iaith o oedran cynnar.

60. Yn 2005, roedd cyraeddiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol1, yn y pynciau a asesir, yn is na'r cyfartaledd sirol a chyfartaledd Cymru (2004). Yr eglurhad am hyn eleni yw'r nifer bychan iawn o ddisgyblion oedd yn y garfan. Wrth gymharu'r canlyniadau ag ysgolion tebyg, o safbwynt niferoedd disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn y chwartel uchaf mewn Cymraeg a gwyddoniaeth ond yn y chwartel isaf mewn mathemateg.

61. Yn 2005, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn arbennig o dda, gyda phob un yn llwyddo i ennill Lefel 4 neu Lefel 5 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau yn uwch na chyfartaleddau'r sir a chyfartaleddau Cymru. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg, o safbwynt disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn y chwartel uchaf ymhob pwnc.

62. Dros y tair blynedd diwethaf, mae canlyniadau'r ysgol ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, wedi bod yn gyson uchel. Yn 2005, roedd y disgyblion yn cyflawni ychydig yn well na'r targedau a osodwyd ar eu cyfer gan yr ysgol.

63. Bechgyn, yn ddieithriad, sydd yn methu cyrraedd y lefelau cyflawniad disgwyliedig; bechgyn yn unig sydd hefyd ar gofrestr anghenion addysg arbenig yr ysgol.

64. Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu, eu cymhelliant a'r modd y defnyddiant eu hamser, yn gyffredinol dda, er nad yw'r nodweddion hyn mor gyson amlwg yn achos disgyblion cyfnod allweddol 2.

65. Mae disgyblion drwy’r ysgol yn ymddwyn yn dda, yn ymagweddu yn briodol ac yn ymwneud yn dda â’i gilydd. Ymatebant yn effeithiol i ddisgwyliadau athrawon ac i ganllawiau’r ysgol. Mae’r drefn o bartneru disgyblion hŷn gyda rhai ifanc ar gyfer rhai gweithgareddau yn un effeithiol.

66. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion dros y tri thymor diwethaf ychydig dan 94%, sydd yn foddhaol. Mae safonau prydlondeb ar ddechrau’r dydd, ac ar ddechrau sesiynau addysgu, yn dda.

67. Gwna disgyblion gynnydd da yn eu dealltwriaeth a’u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfle cyfartal ac o’r angen i barchu traddodiadau a gwerthoedd gwahanol.

68. Mae dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn datblygu’n dda, ac yn cael ei atgyfnerthu gan ymweliadau penodol, megis yr un a wnaed gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 i Bwllheli. Nid oes medrau menter amlwg yn cael eu gweithredu ganddynt, fodd bynnag.

69. Mae disgyblion yn manteisio ar brofiadau effeithiol a gweithgareddau cyson i wneud cynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Trwy eu hamrywiol gyfraniadau yn y gymuned leol a’i gwaith yn datblygu’r ‘ardd fywyd gwyllt’ maent yn datblygu gwerthoedd dinasyddiaeth priodol.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

70. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 13% | 73% | 13% | 0% | 0% |

71. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan, sef fod 95% o addysgu yn y gwersi yn radd 3 neu'n well, a bod 65% yn radd 2 neu'n well.

72. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac o'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer dysgu Plant dan Bump Oed. Cynlluniant eu gwersi yn effeithiol ac maent yn sicrhau ystod eang o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau addysgu, yn enwedig yn y Blynyddoedd Cynnar a chyfnod allweddol 1.

73. Mae gan yr athrawon berthynas dda gyda'r disgyblion. Sicrhânt fod pob disgybl yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau dosbarth a bod pob un yn cael y cyfle i gynnig sylwadau ac ymateb i gwestiynau. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn cael ei feithrin yn effeithiol.

74. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:

- nodau clir yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ar ddechrau gwersi;
- cyflwyniadau diddorol ac ysgogus;
- tasgau symbylus a bwriadus;

75. Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:

- 
- athrawon sy'n hyddysg yn y pynciau a ddysgant;
- trefniadaeth a rheolaeth dosbarth effeithiol sy'n hyrwyddo dysgu da;
- defnydd effeithiol o'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol;
- tasgau gwahaniaethol wedi eu cynllunio'n briodol;
- defnydd effeithiol o gymorthyddion dosbarth;
- cloi effeithiol ar ddiwedd gwersi trwy adolygu'r hyn a ddysgwyd;
- datblygu'r iaith lafar yn effeithiol.

76. Mae'r diffygion mwyaf cyffredin yn yr addysgu yn cynnwys:

- tasgau nad ydynt yn ymestyn galluoedd disgyblion yn ddigonol;
- meini prawf llwyddiant heb eu hegluro'n ddigon clir i'r disgyblion;
- diffyg cyflymder yn yr addysgu a'r dysgu;
- disgwyliadau isel o safbwynt cyflwyniad ac ansawdd gwaith.

77. Mae'r addysgu lle mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion i'w weld yn fwyaf cyson yn nosbarth cyfnod allweddol 2.

78. Mae ansawdd yr asesu yn foddhaol. Ar eu mynediad yn rhan amser i'r ysgol caiff y plant meithrin eu hasesu'n briodol. Yn fuan wedi i'r plant gychwyn yn llawn-amser yn y dosbarth derbyn, mae'r ysgol yn gweithredu Asesu Sylfaen, ac mae'r ansawdd yn dda. Caiff yr asesiadau eu dadansoddi a gosodir targedau perthnasol ar gyfer y cam nesaf o'u datblygiad. Er hyn, nid oes cofnod digonol ar gyfer datblygiad yn chwe maes dysgu'r Canlyniadau Dymunol.

79. Mae'r asesiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cwrdd â'r gofynion statudol. Mae'r ysgol wedi sefydlu dulliau priodol o adnabod anghenion unigolion a darperir rhaglenni addas ar eu cyfer.

80. Mae gan yr ysgol drefn briodol ar gyfer asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Asesir agweddau ar bob pwnc craidd a sylfaenol; er hyn, nid yw'r drefn yn ddigonol i gadw golwg gyson ar ddatblygiad y disgyblion. Mae'r ysgol wedi dechrau casglu portffolio ysgol gyfan o waith disgyblion, a fydd yn cyfrannu at ddealltwriaeth yr athrawon o ofynion gwahanol lefelau.

81. Mae'r ysgol yn gosod targedau unigol i bob disgybl yn yr ysgol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau, ond nid ydynt yn llawn ddeall eu diben. Mae'r athrawon yn trafod y targedau hyn gyda'r disgyblion yn rheolaidd, a chyda'u rhieni.

82. Ar ei orau, mae ansawdd y marcio yn dda ac mae sylwadau'r athrawon yn rhoi arweiniad effeithiol i ddisgyblion ar ffyrdd o wella'u gwaith. Er hyn, nid yw'r drefn hon yn gyson ar draws yr ysgol.

83. Mae gan yr ysgol bolisi gwaith cartref a threfnir i'r disgyblion fynd â llyfrau darllen gartref yn rheolaidd, ynghyd â gwaith perthnasol arall, megis rhestr sillafu a thablau lluosi. Er hyn, mae carfan fechan o rieni, yn ôl eu hymatebion yn y cyfarfod rhieni ac yn ôl eu holiaduron, yn anniddig ynglŷn â effeithiolrwydd trefn y gwaith cartref.

84. Gwahoddir y rhieni i'r ysgol ddwywaith y flwyddyn i drafod gwaith eu plant a chedwir cofnod o'u hymatebion. Mae hyn yn arfer da. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac mae eu hansawdd yn dda. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r sylwadau personol sydd yn yr adroddiadau a'r cyfarfodydd a gânt i drafod gwaith eu plant, er nad ydynt oll yn hapus gyda'r dull electronig o ddewis sylwadau.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

85. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

86. Ymateba'r ysgol yn dda i anghenion a diddordebau'r disgyblion a darpara fynediad cyfartal i gwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Mae'n cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ac â'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Plant dan Bump Oed.

87. Mae polisïau a chynlluniau gwaith addas ar gyfer yr holl feysydd cwricwlaidd, gan gynnwys chwe maes dysgu'r Plant dan 5 Oed. Mae'r cynlluniau manwl yn cynnig canllawiau clir i'r athrawon ac yn sicrhau dilyniant a pharhâd yn nysgu'r disgyblion. Rhoddir lle amlwg yn y cynlluniau i addysgu'r medrau allweddol a'r medrau sylfaenol. Datblygir addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion yn briodol drwy agweddau o'r cwricwlwm ac yn ystod cyfnodau 'amser cylch' ac 'ysgol Deina', er nad yw hyn wedi ei gynllunio'n ddigon strwythuredig.

88. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ar gyfer dysgu y tu allan i oriau ysgol. Mae'r ymweliadau i fannau o ddiddordeb addysgiadol, cyrsiau preswyl a gweithgareddau eraill, oll yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'r cwricwlwm ac yn cyfrannu'n sylweddol at eu profiadau a'u datblygiad.

89. Mae'r profiadau dysgu addas, yn ogystal â'r addoliadau-ar-y-cyd gwerthfawr, yn hyrwyddo'n llwyddiannus ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r cysylltiad â'r ysgol yn Ne Cymru yn hyrwyddo ymhellach nodweddion cyd-weithio a chyfeillgarwch. Mae gan y disgyblion synnwyr clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros yr ysgol a'i hamgylchedd.

90. Cyfoethogir ymwybydddiaeth y disgyblion o faterion cynaladwyedd yn rhagorol drwy'r sylw a roddir i ail-gylchu, creu'r ardd bywyd-gwyllt a chlirio sbwriel o draeth lleol. Er bod y disgyblion, drwy eu cyfraniadau hael at elusennau tramor, yn ymwybodol o agweddau o ddinasyddiaeth fyd-eang, nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n ddigonol.

91. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu hyfedredd dwyieithog y disgyblion ac, erbyn cyfnod allwedddol 2, caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu gallu i ddysgu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

92. Rhydd yr ysgol gyfleoedd da i ddisgyblion astudio eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, drwy bynciau megis cerddoriaeth a'r dyniaethau. Rhoddir pwyslais da ar astudio treftadaeth Cymru a'r diwylliant Cymreig. Rhoddir sylw da hefyd i'r Cwricwlwm Cymreig yng ngwaith yr ysgol ac mewn gweithgareddau cymunedol.

93. Trwy gyfrwng ei holl weithgareddau, mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac mae hyn yn adlewyrchu ei hymroddiad i sicrhau mynediad a chyfleoedd cyfartal i bawb.

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

94. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

95. Mae ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gynigir i'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae perthynas dda rhwng y disgyblion â'i gilydd ac â'u hathrawon, a cheir ymdeimlad cryf o blith y disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae plant ieuengaf yr ysgol yn ymgartrefu'n gyflym a chânt gefnogaeth dda gan yr athrawon, y cymorthyddion a phlant hŷn yr ysgol.

96. Mae'r ymwneud â chynllun yr 'Ysgol Werdd' wedi cael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd o waith yr ysgol. Mae'r sesiynau 'amser cylch' a drefnir yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion gynnal trafodaethau perthnasol, sy'n adlewyrchu'r hunan-hyder a ddatblygwyd ynddynt o ganlyniad i hyn.

97. Mae'r oll o'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r gofal a gaiff eu plant a'r gwerthoedd sy'n cael eu meithrin. Er hyn, mae carfan fechan o'r rhieni, yn ôl tystiolaeth y cyfarfod a gynhaliwyd a'r holiaduron a ddychwelwyd, yn anfodlon gydag agweddau o'r ddarpariaeth addysgol, ansawdd gwaith eu plant a chyda gweithrediad y drefniadaeth ar gyfer gwaith cartref.

98. Y pennaeth yw'r aelod staff sydd â chyfrifoldeb penodol am y weithdrefn Amddiffyn Plant; mae yna hefyd aelod dynodedig o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb Amddiffyn Plant. Mae gweddill yr oedolion a gyflogir yn ymwybodol o'r gweithdrefnau perthnasol i'w dilyn pe byddai achos yn codi.

99. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu arbennig yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Côd Ymarfer. Wedi i'r ysgol adnabod anawsterau dysgu'r disgyblion, dadansoddant eu hanghenion yn effeithiol ac ymatebant yn briodol. Mae'r gefnogaeth ddyddiol ychwanegol a ddarperir ar gyfer y disgyblion hyn yn werthfawr, ac yn rhoi'r cymorth ychwanegol i sicrhau fod y disgyblion yn cyflawni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer. Gwna'r disgyblion gynnydd da, sy'n cyfateb i'w gallu a'u hoedran. Cydweithia'r holl staff er sicrhau y caiff pob disgybl fynediad llawn i gwricwlwm a gweithgareddau'r ysgol.

100. Mae pum disgybl ar y rhestr o anghenion dysgu ychwanegol ac maent i gyd ar gyfnod 'cymorth ysgol a mwy'. Mae'r ysgol yn cefnogi'r disgyblion hyn yn effeithiol trwy waith yr athrawon dosbarth, y cymhorthydd a chan athrawes anghenion addysgol arbennig**.** Mynycha un disgybl Uned Anghenion Addysgol Arbennig gyfagos yn y boreau, ac mae cydweithio effeithiol rhwng yr Uned a'r ysgol. Cydweithia'r ysgol hefyd yn briodol gydag asiantaethau'r AALl, gyda'r rhieni a'r ysgol uwchradd berthnasol.

101. Mae cynlluniau addysg unigol wedi eu paratoi ar gyfer pob un sydd ar y rhestr o anghenion dysgu arbennig. Maent yn cynnwys targedau dysgu penodol sy'n cyfateb i anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol yn adolygu'r cynlluniau fel y nodir arnynt ac maent yn cael eu trafod gyda'r rhieni a'r disgyblion.

102. Mae gan yr aelod o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb dros AAA ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau ac mae ei ddealltwriaeth o drefniadau'r ysgol yn datblygu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

103. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

104. Mae'r pennaeth yn rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd mewn modd effeithiol, ac mae hi'n bendant ei chyfeiriad a'i dyheadau ar gyfer yr ysgol. Llwydda i ennyn cydweithrediad parod a brwdfrydig y staff addysgu a'r cymorthyddion, i gynnal gwerthoedd ac ethos priodol o fewn yr ysgol.

105. Mae'r gweithgareddau cwricwlaidd a'r gweithdrefnau rheolaethol yn cael eu cefnogi gan nifer da o bolisïau a chan ddatganiad o nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol.

106. Mae'r ysgol yn gosod targedau ar gyfer cyraeddiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn flynyddol yn y pynciau craidd. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn trafod y canlyniadau ac yn mireinio'u targedau o ganlyniad.

107. Trwy osod a monitro amcanion pertnasol ar gyfer unigolion, mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â'r polisi Rheoli Perfformiad i sicrhau datblygiad proffesiynol athrawon.

108. Gweithreda'r ysgol yn frwdfrydig ac effeithiol wrth ymwneud â nifer o flaengareddau a blaenoriaethau cyfoes, megis yr Ysgol Werdd, creu gardd bywyd-gwyllt a thrwy hybu dwyieithrwydd disgyblion.

109. Gweithreda'r corff llywodraethu yn effeithiol i gefnogi a rheoli'r ysgol. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac mae nifer o is-banelau wedi'u sefydlu i drafod materion penodol. Llwydda i ymateb i ofynion statudol drwy lunio ac adolygu Llawlyfr yr Ysgol a thrwy gyflwyno'i adroddiad blynyddol ar gyfer y rhieni.

110. Nid yw'r corff llywodraethu, hyd yma, wedi ymwneud â monitro'r cwricwlwm mewn modd cynlluniedig a ffurfiol.

## Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

## Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

111. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

112. Ni roddodd yr ysgol adroddiad cryno o ganfyddiadau'r ysgol i'r arolygwyr. Fodd bynnag, mae ffeil hunan-arfarnu'r ysgol yn ddogfen drefnus, sy'n ymgorffori amserlen fonitro, canllawiau gweithredu. Caiff tystiolaeth amrywiol ei nodi fel sail i ganfyddiadau. Mae'r ddogfen hon yn tystio i ddealltwriaeth dda o amcanion a phrosesau hunan-arfarnu.

113. Mae'r pennaeth a'i chyd-athrawon wedi ymroi i arfarnu'r sefyllfa o safbwynt y cwestiynau allweddol ac o safbwynt nifer o feysydd cwricwlaidd. Wrth ystyried safonau, rhoddodd yr ysgol sylw i ddata perfformiad ac i ddatblygiadau diweddar, megis gweithdrefnau cynnal ymddygiad. Mae'r canfyddiadau'r arfarniad yn cyfateb i ganfyddiadau't tîm arolygu ymhob un o'r saith cwestiwn allweddol.

114. Mae cydlynwyr cwricwlaidd wedi bod yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau gwaith ac adnoddau. Nid ydynt wedi rhoi sylw digonol i gywirdeb arfarniadau ar safonau traws-ysgol ac i fonitro dysgu ac addysgu mewn dosbarthiadau. Nid oes cofnod o gyfrifoldebau'r cydlynwyr cwricwlaidd yn swydd-ddisgrifiadau'r athrawon.

115. Mae'r corff llywodraethu yn chwarae rhan gadarnhaol yn y broses, wedi trafod dyfarniadau a wnaed gan y staff, ac yn ymwybodol mai Gradd 2 ddyfarnwyd i bob cwestiwn allweddol.

116. Mae gan y Cyngor Ysgol, sydd wedi ei sefydlu ers Medi, ei ran i'w chwarae wrth awgrymu gwelliannau neu ychwanegiadau at adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn canfod barn a safbwyntiau disgyblion a rhieni yn ffurfiol, fel modd o gyfrannu at y weithdrefn hunanarfarnu.

117. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen drefnus ac effeithiol. Mae'r blaenoriaethau datblygu a nodir ynddi wedi deillio o gyd-drafod opsiynau posibl yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Mae'r ddogfen yn nodi dulliau o gyflawni'r blaenoriaethau, ynghyd â goblygiadau amser a chyllid sydd ynghlwm wrthynt. Mae'n cyplysu canfyddiadau'r broses hunanarfarnu â'r blaenoriaethau datblygu a nodir yn y cynllun datblygu ysgol y tro nesaf.

118. Rhoddodd yr ysgol sylw, trwy lunio cynllun gweithredu priodol, i'r materion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf, a gynhaliwyd yn Chwefror, 2000. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da mewn nifer o agweddau, megis codi safonau rhai pynciau ym mhen ucha'r ysgol, datblygu ymhellach y ddarpariaeth i Blant dan 5 Oed a gwella'r cyswllt rhwng Uned AAA gyfagos a'r ysgol. Fodd bynnag, fe erys materion yn ymwneud â chodi safonau Cymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn argymhellion yr adroddiad hwn.

## Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

## Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

119. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

120. Mae nifer digonol o staff addysgu yn yr ysgol ar gyfer y niferoedd sydd ar y gofrestr. Maent yn meddu ar gymwysterau priodol ar gyffer addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Mynychant gyrsiau yn rheolaidd er mwyn diweddaru eu medrau ac ennill ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a blaengareddau cyfoes.

121. Gwna'r ysgol drefniadau i gyfnewid dosabarthiadau ac mae athrawesau rhan-amser yn cyfrannu'n effeithiol at y gwaith. Mae hyn yn atgyfnerthu profiadau cwricwlaidd y disgyblion.

122. Mae'r cymorthyddion a gyflogir hefyd yn cyfrannu'n dda at y ddarpariaeth, o safbwynt cynhaliaeth anghenion addysgol arbennig a chefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion o fewn y dosbarthiadau.

123. Mae'r athrawes lawn-amser yn cael ei rhyddhau o ofal dosbarth yn unol â chanllawiau lleihau baich athrawon, ac mae'r ysgol yn rhagweld y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau maes o law.

124. Mae cyflwr yr adeilad yn gyffredinol dda, ac mae'n cael ei gadw'n lân a destlus. Mae'r ethos mewnol yn cael ei gyfoethogi gan arddangosfeydd a chanllawiau addysgu. Manteisia'r ysgol ar ystafell hynod o eang ar gyfer addysgu disgyblion cyfnod allweddol 2 a gwneir defnydd effeithiol o'r neuadd ar gyfer rhai gweithgareddau.

125. Er nad oes maes parcio penodol sy'n perthyn i'r ysgol, mae trefniant o ddefnyddio maes parcio'r dafarn leol. Mae'r oruchwyliaeth a ddarperir pan fydd disgyblion yn gadael yr ysgol yn sicrhau diogelwch y disgyblion.

126. Mae'r buarth a'r cae-chwarae yn eang, er nad oes libart caeedig, penodol ar y buarth ar gyfer gweithgareddau chwarae'r Plant Dan 5 Oed. Nodwyd un mater o iechyd a diogelwch yn y cyfarfodydd ôl-arolygiad.

127. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer darparu'r cwricwlwm, ac mae gan bob un o'r disgyblion fynediad parod at adnoddau sy'n berthnasol i'w haddysg. Pan fo anghenion penodol, mae'r Gymdeithas Rieni yn cyfrannu arian tuag at eu diwallu.

128. Mae'r ysgol yn sicrhau defnydd effeithlon o'r adnoddau a bwrcaswyd ac mae'r rheolwyr a'r corff llywodraethu yn ymorol yn ofalus am wariannau, er mwyn sicrhau gwerth am arian mewn modd effeithlon.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Dan-5 oed

**Blynyddoedd Cynnar**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

129. Mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer Plant dan Bump Oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

**Nodweddion da**

**Iaith, llythrennedd a chyfathrebu**

130. Mae'r plant meithrin yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn briodol ar lafar. Dangosant ddiddordeb mewn llyfrau a mwynhânt roi marciau ar bapur. Gallant dros-ysgrifennu yn gywir ac mae unigolion yn gallu ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

131. Mae'r plant oedran derbyn yn gwrando'n dda yn y dosbarth. Mwynhânt wrando ar storïau a chyflwyniadau ac ymateb iddynt. Maent yn barod i sgwrsio a rhannu eu profiadau. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r Gymraeg a gwnânt ymdrechion da i'w defnyddio ar lefel eu datblygiad. Mwynhâ'r plant edrych ar lyfrau ac ymagweddant fel darllenwyr. Maent yn adnabod rhai llythrennau a geiriau cyfarwydd ac mae unigolion yn darllen yn annibynnol ar lefel eu datblygiad. Gallant ddargopïo yn gywir ac ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

**Datblygiad personol a chymdeithasol**

132. Mae'r plant meithrin wedi ymgartrefu'n dda yn yr ysgol ac wedi sefydlu perthynas dda gyda phlant y dosbarth a chydag oedolion. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addas i'w hoedran, sy'n hybu cyd-chwarae a rhannu.

133. Mae'r plant oedran derbyn yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau ac yn cyd-weithio'n dda wrth chwarae gyda'i gilydd a chyda phlant eraill. Mae eu hymddygiad yn gyffredinol dda. Deuant yn ymwybodol o hanesion o'r Beibl, a thrwy storïau addas a chyfnodau 'amser cylch' dysgant am gyfeillgarwch a gofal am eraill.

**Datblygiad mathemategol**

134. Mae'r plant meithrin yn gallu ddosbarthu gwrthrychau yn briodol yn ôl eu lliw. Maent yn adnabod rhai rhifau a gallant gyfrif gwrthrychau'n gywir a thrwy brofiadau ymarferol deuant i ddeall gwerth rhifau. Maent yn adnabod rhai siapiau 2D a deallant gysyniadau megis 'mawr' a 'bach'.

135. Mae'r plant derbyn yn gallu cyfrif hyd at o leiaf ddeg, ymlaen ac yn ôl. Maent yn adnabod siapiau 2D a rhai 3D a'u henwi'n gywir. Maent yn gallu dosbarthu gwrthrychau yn gywir yn ôl meini prawf penodol. Maent yn dechrau adnabod rhai darnau arian a thrwy brofiadau ymarferol deallant am rai mesurau ansafonol. Defnyddiant eirfa fathemategol elfennol yn gywir.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

136. Mae'r plant meithrin yn siarad yn briodol amdanynt eu hunain a'u cartrefi. Drwy brofiadau ymarferol gallant greu gwrthrychau gyda gwahanol flociau yn llwyddiannus. Mae eu medrau arsylwi'n datblygu'n dda wrth iddynt chwarae gyda thywod a dŵr.

137. Mae'r plant derbyn yn arsylwi ar wrthrychau'n arnofio a suddo ymŵryad defnyddiant eirfa wyddonol yn gywir wrth eu didoli. Maent yn adnabod eu hardal leol yn dda a gallant enwi rhai lleoedd cyfarwydd yn y fro yn gywir. Defnyddiant eirfa ddaearyddol yn gywir. Wrth drafod diwrnod golchi gynt, gwnânt ddefnydd cywir o eirfa megis 'heddiw' ac 'ers talwm'. Cymharant yn syml yr arteffactau a welwyd gyda'r offer y mae eu mamau'n eu defnyddio. Mae eu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n datblygu'n gyson wrth iddynt reoli'r llygoden gyda medrusrwydd cynyddol.

**Datblygiad creadigol**

138. Mae'r plant meithrin yn mwynhau canu rhigymau a chaneuon addas i'w hoedran. Ymunant yn y symudiadau a chyfeiliant i rai o'r caneuon gydag offerynnau heb eu tiwnio. Cynhyrchant ddarluniau a phaentiadau effeithiol ar lefel eu datblygiad, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.

139. Mae'r plant derbyn yn gwybod amrywiaeth dda o ganeuon a defnyddiant offerynnau heb eu tiwnio i gyfeilio i'r caneuon, gan gadw curiad eithaf cywir. Mae'r plant yn creu amrywiaeth o waith o'u dychymyg trwy ddefnyddio paent a chyfryngau eraill, a chyfrannant i greu murluniau effeithiol gan ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau. Cynhyrchant amrywiaeth o waith 3D gyda chlai. Mwynhânt chwarae rôl yn y 'tŷ twt' a'r 'siop ffrwythau'.

**Datblygiad corfforol**

140. Mae'r plant meithrin yn defnyddio offer mân gyda rheolaeth gynyddol. Wrth chwarae gydag offer mawr, dangosant reolaeth briodol o'u medrau corfforol mawr. Mwynhânt y sesiynau dawns gyda'r plant derbyn.

141. Mae'r plant oedran derbyn yn arddangos medrusrwydd cynyddol wrth ymdrîn ag amrywiaeth o offer priodol. Maent yn symud yn hyderus, yn gwneud defnydd da o ofod ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir wrth gael profiadau addysg gorfforol ac wrth chwarae gyda theganau mawr.

**Diffygion**

142. Nid yw chwarae rôl yn elfen digon amlwg ym mhrofiadau'r plant ac nid yw'r profiadau chwarae gyda theganau mawr wedi eu strwythuro'n ddigonol.

## Cymraeg iaith cyntaf

**Cyfnod Allweddol 1** - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

**Cyfnod Allweddol 2** – Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

### Nodweddion da ac eithriadol

143. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau gwersi ac yn gallu sgwrsio'n hyderus, gan fynegi eu teimladau yn ystyrlon yn y sefyllfa ddosbarth ac wrth sgwrsio ag oedolion eraill. Defnyddiant yr iaith lafar yn effeithiol i holi, i gyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth ac i fynegi barn.

144. Dangosant ddealltwriaeth dda o eirfa mewn stori a gyflwynir iddynt a gallant lunio cymariaethau gwreiddiol ar lafar.

145. Mae medrau darllen y disgyblion yn dda. Llwydda'r mwyaf galluog ym Mlwyddyn 1 ddarllen yn ddidrafferth, gan ddangos eu bod yn adnabod cymeriadau mewn storïau. Mae mwyafrif helaeth disgyblion Blwyddyn 2 yn darllen yn rhugl ac ystyrlon. Gallant drafod sut mae rhai testunau a ddarllenant ar ffurf odl, a chynnig enghreifftiau pellach o eiriau sy'n odli yn yr un modd.

146. Gwyddant yn dda am ystyr rhai termau llenyddol syml, a deallant mai cyhoeddwyr llyfrau yw 'Gomer' a 'Charreg Gwalch'.

147. Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gallu ysgrifennu gyda hyder cynyddol, gyda'r goreuon yn eu plith yn llwyddo i greu darnau estynedig o ysgrifennu rhydd, cydlynus. Maent yn gyfarwydd â chofnodi ar ffurfiau megis llythyr, rhestr, sgript a disgrifiad o gymeriad.

148. Wrth ymwneud â ffurfiau fel hyn, dangosant afael da ar gystrawen, ac ar gonfensiynau, megis dyfynodau a ffurfiau cryno'r ferf.

149. Yng nghyfnod allweddol 2, mae nifer dda o ddisgyblion yn sgwrsio'n hyderus iawn ac yn gallu trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau'r athrawesau ac yn barod i gyfrannu syniadau gwreiddiol wrth drafod yr hyn a wnaethant mewn agweddau o'u gwaith; gallant resymu a rhagfynegi. Mae ganddynt afael gadarn ar eirfa ac ar gystrawen.

150. Mae lleiafrif bychan o'r disgyblion yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant, a thrwy hynny yn gallu cyfleu ystyr yr hyn a ddarllenant yn effeithiol. Mae nifer dda yn gallu trafod yr hyn a ddarllenwyd ganddynt.

151. Gall nifer dda ohonynt drafod cynnwys y llyfrau gan ddefnyddio'r termau llenyddol. Mae lleiafrif hefyd yn deall bod 'Mynegai' yn ddefnyddiol wrth gywain gwybodaeth o lyfrau.

152. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth ddigonol o amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu, a defnyddiant rai ohonynt i lunio darnau i bwrpasau penodol.

153. Gŵyr y disgyblion sut i ddefnyddio priod-ddulliau'r iaith i roi lliw i'w gwaith, ac mae eu gafael ar gystrawennau a ffurfiau berfol yn dda. Mae nifer bychan o'r disgyblion yn sillafu ac atalnodi'n gywir.

**Diffygion**

154. Mae rhai disgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen ar goedd mewn modd difynegiant, ac heb allu rhoi sylw i'r marciau atalnodi er mwyn cyfleu ystyr.

155. Mae canran arwyddocaol o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni gwaith ysgrifennu sydd yn ddi-raen ac anorffenedig, ac yn aml yn elfennol ei gynnwys. Nid ydynt yn ymfalchïo'n briodol yn y gwaith a gyflwynant nac yn ymroi i fireinio eu darnau ysgrifennu.

## Mathemateg

**Cyfnod Allweddol 1** - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

**Cyfnod Allweddol 2** - Gradd 3: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

**Nodweddion da**

156. Mae sgiliau mathemateg pen disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n gyson drwy'r ddau gyfnod allweddol ac mae ganddynt afael briodol ar ystod o strategaethau.

157. Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan fwyafrif helaeth y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o fondiau rhif a phatrymau rhif, gan gynnwys odrif ac eilrif. Llwyddant i gyfrif ymlaen ac yn ôl yn gywir mewn gwahanol gamau. Mae'r disgyblion yn adnabod gwahanol ddarnau o arian a gallant eu defnyddio'n gywir i gyfrifiannu symiau arian ac wrth dalu a rhoi newid yn siop y dosbarth.

158. Yn eu gwaith ar fesuriadau defnyddiant fesurau ansafonol a safonol yn dda. Defnyddiant iaith fathemategol yn gywir wrth drafod mesurau. Gallant amcangyfrif yn synhwyrol. Maent yn deall ystyr haneri a chwarteri yn dda ac mae eu gwybodaeth o amser hefyd yn dda. Darllenant y cloc a gallant ddweud yr amser yn gywir.

159. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn adnabod nifer dda o siapiau 2D a rhai 3D wrth eu henwau. Disgrifiant eu priodweddau yn gywir. Gallant ddosbarthu yn drefnus yn ôl eu meini prawf eu hunain.

160. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth mwyafrif y disgyblion o'r pedair rheol rhif yn sicr. Mae ganddynt wybodaeth gadarn o werth lle. Defnyddiant eu gwybodaeth yn fedrus wrth ddatrys problemau syml.

161. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth briodol o amser ac maent yn llwyddo'n gymharol dda wrth drosi o amser ar gloc 12-awr i gloc 24-awr. Mae'r goreuon yn fedrus wrth nodi'r amser mewn gwahanol wledydd yn gywir.

162. Dealla'r disgyblion ffracsiynau a gallant ymdrin â hwy yn gynyddol gywir. Mae unigolion yn deall y berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau a gallant drosi o un i'r llall yn eithaf hyderus. Talgrynnant ganrannau'n gywir.

163. Mae gallu'r disgyblion i ddehongli ac arddangos data yn foddhaol. Cofnodant gan ddefnyddio ystod briodol o wahanol fathau o graffiau.

164. Gall unigolion gymhwyso'u gwybodaeth fathemategol mewn cyd-destunau ymarferol i safon dda.

**Diffygion**

165. Yng nghyfnod allweddol 1, mae unigolion yn ansicr wrth drafod a dehongli gwybodaeth a gasglwyd ganddynt ar ffurf graffiau syml.

166. Yng nghyfnod allweddol 2, mae unigolion yn ansicr wrth ymwneud â gwaith rhif ac amser, ac annatblygedig yw gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 o arwynebedd a pherimedr.

## Technoleg gwybodaeth

**Cyfnod Allweddol 1 –** Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

**Cyfnod Allweddol 2 –** Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

### Nodweddion rhagorol

167. Dengys disgyblion cyfnod allweddol 1 allu rhagorol i gynhyrchu graffiau o gronfa barod.

168. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymwneud yn hyderus iawn ag ystod eang o weithgareddau.

169. Mae'r disgyblion mwyaf hyderus cyfnod allweddol 2 yn llwyddo'n rhagorol i greu sleidiau *Powerpoint,* gan fewnforio lluniau i gyd-fynd â thestun er mwyn cofnodi gwybodaeth am Gymry enwog.

### Nodweddion da

170. Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o raglenni atgyfnerthu, sy'n hybu eu medrau llythrennedd a mathemategol yn dda.

171. Wrth brosesu geiriau, gwyddant sut i gadw eu gwaith dan eu henwau eu hunain ac i'w adalw, ac erbyn Blwyddyn 2 maent yn hyderus wrth amrywio ffont a maint llythrennau.

172. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ddulliau casglu, trefnu a chofnodi data o ganlyniad i gywain gwybodaeth holiaduron unigol.

173. Mae medrau a hyder y disgyblion yn amlwg wrth iddynt reoli'r Crwban-llawr, gan osod cyfres o gyfarwyddiadau sy'n rheoli pellterau a chyfeiriadau'n dda.

174. Defnyddiant raglenni arlunio yn effeithiol a chreadigol i greu cloriau i gardiau Nadolig, a gallant gadw'r gwaith a'i argraffu'n bwrpasol.

175. Wrth ymwneud â rhaglen Logo, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu creu gweithdrefnau'n dda o safbwynt cyfeiriadau ac onglau sy'n eu galluogi i lunio siapiau efelychiadol.

176. Gallant anfon negeseuon e-bost o fewn yr ysgol ac i gyfeiriadau eraill, i bwrpas cyfarch, ac i ddiolch am gymorth tywysydd ar ymweliad a wnaethant.

177. Erbyn Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, maent yn llwyddo i gynhyrchu graffiau amrywiol o gronfeydd data, ac i ddefnyddio taenlenni'n effeithiol iawn.

### Diffygion

178. Nid oes diffygion arwyddocaol.

## Hanes

**Cyfnod Allweddol 1 –** Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

**Cyfnod Allweddol 2 –** Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Nodweddion da

179. Yng nghyfnod allweddol 1, gall y disgyblion drafod newidiadau yn eu bywydau eu hunain a gosod digwyddiadau yn eu trefn yn dda. Deallant fod gan ddigwyddiadau ganlyniad ac y gall pethau newid dros amser. Defnyddiant dermau hanesyddol sy'n cyfleu treigl amser yn gywir.

180. Drwy astudio arteffactau, ffotograffau a llyfrau, a thrwy chwarae rôl, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r modd yr oedd pobl yn gweithio yn y cartref. Cymharant hyn yn syml ag amodau gweithio yn y cartref heddiw, a dangosant empathi tuag atynt.

181. Yn dilyn gwahodd pobl hŷn o'r gymuned i'r ysgol, gall y disgyblion holi a thrafod ar lafar wybodaeth berthnasol am y gorffennol. Trafodant yr arteffactau a ddangoswyd iddynt yn frwdfrydig, gan egluro'n gywir eu defnydd a'u cymharu â chelfi heddiw.

182. Mae gan leiafrif bychan wybodaeth briodol dda am fywydau rhai cymeriadau amlwg yn hanes Cymru a Lloegr, a gallant egluro'n syml pam y maent yn enwog.

183. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth dda o'r topigau a astudiwyd ganddynt. Gall y mwyafrif osod y prif gyfnodau hanesyddol ar linell amser yn gywir. Mae eu dealltwriaeth o dermau hanes yn dda. Mae'r goreuon yn deall bod modd dehongli tystiolaeth mewn mwy nag un ffordd.

184. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth sicr am yr Ail Ryfel Byd. Maent yn ymwybodol iawn o amodau byw y cyfnod a thrafodant ddigwyddiadau a phersonoliaethau yn ddeallus. Datblygant fedrau empathi wrth drafod amgylchiadau'r ifaciwîs.

185. Trafodant yn effeithiol drosedd a chosb yng nghyfnod y Tuduriaid. Cyfleant y profiadau'n dda drwy gyfrwng meim a thrwy drafod ac adrodd yr hanes yn eu geiriau eu hunain.

186. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth dda am hanes y Celtiaid, a siaradant yn synhwyrol am eu ffordd o fyw. Dangosant empathi wrth drafod y cyfnod a gwnânt gymariaethau effeithiol rhwng ffordd y Celtiaid o fyw a bywyd heddiw.

187. Mae mwyafrif y disgyblion yn deall sut i gasglu tystiolaeth hanesyddol a gwnânt ddefnydd cynyddol o ystod o ffynonellau i ymchwilio i destunau hanesyddol.

**Diffygion**

188. Ansicr yw gwybodaeth rhai disgyblion cyfnod allweddol 1 o bersonau enwog mewn hanes.

189. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o hymchwiliadau eu hunain ac nid ydynt bob amser yn arddangos dyfnder a dealltwriaeth digonol yn eu tasgau ysgrifenedig.

## Daearyddiaeth

**Cyfnod Allweddol 1 –** Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

**Cyfnod Allweddol 2 –** Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Nodweddion da ac eithriadol

190. Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am eu hardal eu hunain. Maent yn gallu lleoli nodweddion ar gynllun o'u pentref a rhesymu ynghylch nodweddion daearyddol. Gallant enwi traeth a mynydd lleol.

191. Manteisiant yn dda ar brofiadau symbylus, megis chwarae rôl ac ymweld â thref, i gadarnhau a dyfnhau eu gwybodaeth. Dysgant yn effeithiol am rai o wasanaethau a busnesau'r dref a gallant ddisgrifio gwaith y postmon yn briodol.

192. Gwyddant am y cyfeiriadau cwmpawd sylfaenol a defnyddiant dermau sy'n berthnasol i deithio a symud yn briodol wrth gyfarwyddo Crwban-llawr ar fap o'r pentref.

193. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y disgyblion wybodaeth dda o fannau yn eu cymdogaeth a'r tu hwnt. Gallant ddisgrifio prif nodweddion, megis anheddau ac adeiladau eraill, sydd i'w gweld mewn mannau gwahanol.

194. Wrth astudio ardal mewn rhan arall o Gymru, llwyddant i gywain gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, megis map, y we a thaflen adnoddau.

195. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'r modd y mae cyfeirnodau 6-ffigwr yn eu galluogi i leoli nodweddion ar fap yn fanwl, a gwyddant sut i gofnodi lleoliadau yn ôl eu cyfeiriadedd o fannau penodol, gan ddefnyddio wyth pwynt y cwmpawd.

196. Mae gan rai disgyblion wybodaeth dda am fannau pellennig ac am brifddinasoedd rhai gwledydd. Mae eu hymwybyddiaeth o'r amgylchfyd naturiol yn datblygu yn dda wrth iddynt astudio ardal forol a thrafod ei nodweddion.

### Diffygion

197. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 1 yn cymharu a chofnodi yn ddigon manwl wrth astudio ardal gyferbyniol, nac yn mynegi barn am fannau deniadol neu llai deniadol o fewn eu hardal.

198. Yn rhy aml, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn bodloni ar ymateb yn fyr ar daflenni parod. Mae elfennau o'r gwaith cofnodi yn ddi-drefn.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Rydym fel staff a chorff llywodraethu Ysgol Tudweiliog yn falch o dderbyn adroddiad mor dda am yr ysgol. Teimlwn ei fod yn adroddiad teg, cadarnhaol ac adeiladol, ac yn adlewyrchiad o'r gwaith caled a wneir gan y staff a'r disgyblion. Yn wir, roedd yr arolygwyr yn cytuno â barn yr ysgol ym mhob un o'r cwestiynau allweddol.

Roedd yr arolygiad yn drylwyr ac yn eang ei gwmpas. Cafwyd trafodaethau buddiol a phroffesiynol wrth i'r arolygwyr ddod i farn, ac roedd cyfleoedd i arddangos tystiolaeth ac i leisio barn ar agweddau penodol. Teimlwyd bod rôl y pennaeth fel enwebai yn y broses yn un gwerthfawr, agored a gonest iawn.

Ym mwyafrif helaeth yr agweddau rydym yn llwyddo i gyrraedd safonau da, a theimlwn fel ysgol y gallwn symud ymlaen o hyn ac anelu at ddatblygu ymhellach. Hefyd rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod rhai agweddau wedi cyrraedd safonau da iawn.

Hoffem ddiolch yn fawr i'r tîm arolygu am eu proffesiynoldeb a'u cwrteisi. Bu'r arolygiad a'r argymhellion yn brofiad cadarnhaol i ni fel ysgol – wedi atgyfnerthu ein cryfderau, gan nodi'n glir y meysydd lle medrwn ddatblygu ymhellach, fel y bydd yr ysgol yn cyrraedd ei llawn botensial. Bydd yn arf arbennig wrth inni lunio ein Cynllun Gweithredu a bydd hwnnw'n cael ei rannu gyda'r rhieni. Bydd adroddiad blynyddol y corff llywodraethu yn adrodd ar y cynnydd a wnaed.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Tudweiliog |
| Math o ysgol | Sirol, Naturiol Ddwyieithog |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-11 |
| Cyfeiriad yr ysgol | Tudweiliog,<br>Pwllheli,<br>Gwynedd. |
| Cod post | LL53 8ND |
| Rhif ffôn | 01758 770669 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs Einir Davies |
| Dyddiad penodi | Medi 1996 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol | Mr Seimon Glyn |
| Arolygydd Cofrestredig | Len Jones |
| Dyddiadau'r arolygiad | Chwefror 6-8, 2006 |

# Atodiad 2

**Data a dangosyddion ysgol**

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 2 | 4 | 4 | 6 | 3 | 4 | 6 | 2 | 31 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 2 | 2 | 2.3 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 14.5 : 1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | - |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | - |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 15.5 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.15 : 1 |

| Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tymor | D | CA1 | CA2 | Ysgol Gyfan |
| Gwanwyn 05 | 97% | Dim gwyb. | Dim gwyb. | 93.3% |
| Haf 05 | 95.3% | “ | “ | 93.8% |
| Hydref 05 | 91.1% | “ | “ | 93.7% |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 7% |
| Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | - |

## Atodiad 3

**Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**
## Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

| **Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005** | Nifer y disgyblion yn B2 | 3 |
|---|---|---|
| Gan fod nifer y disgyblion sydd yn gymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir y manylion yn yr adroddiad hwn. | | |

**Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**
**Diwedd Cyfnod Allweddol 2:**

| **Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005** | | Nifer y disgyblion yn B6 | 11 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Saesneg | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 9.1 | 54.5 | 36.4 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 16 | 46 | 30 | |
| Cymraeg | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 18.2 | 36.4 | 45.5 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 3 | 17 | 49 | 28 | |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | 9.1 | 36.4 | 54.5 | |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 17 | 46 | 31 | |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | | | | | | | | 45.5 | 54.5 | |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 11 | 50 | 37 | |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemtaeg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiaith) | | | |
|---|---|---|---|
| yn ôl Asesiad Athro | | yn ôl Prawf | |
| Yn yr ysgol | 90.9% | Yn yr ysgol | - |
| Yng Nghymru | 72% | Yng Nghymru | - |

D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgylbion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

- Cynhaliwyd yr arolygiad gan dîm o dri arolygydd a oedd yn bresennol yn yr ysgol am 6 ‘diwrnod arolygydd’.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda’r rhieni, lle’r oedd 16 yn bresennol, a chyda’r corff llywodraethu, i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Dychwelwyd 18 o holiaduron rhieni, ynghyd â 12 llythyr neu nodyn ategol, a chawsant eu dadansoddi’n ofalus.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda’r pennaeth a’r athrawon.
- Archwiliwyd dogfennaeth yr ysgol.
- Arolygwyd 14 o wersi neu rannau o wersi.
- Archwiliwyd samplau o waith disgyblion ymhob grŵp blwyddyn.
- Gwrandawyd ar drawsdoriad o ddisgyblion yn darllen yn y ddau gyfnod allweddol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am agweddau o fywyd yr ysgol ac am eu gwaith.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod amseroedd egwyl, amser cinio ac ar ddechrau a diwedd sesiynau’r ysgol.
- Mynychodd yr arolygwyr wasanaethau.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda’r staff a’r corff llywodraethu.

# Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Aelod Tîm | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Len Jones<br>(Arolygydd Cofrestredig) | Cyd-destun<br>Crynodeb ac argymhellion<br>Cwestiwn Allweddol 1,5,6 a 7<br>Cymraeg, Technoleg Gwybodaeth, Daearyddiaeth |
| Rhianwen Huws Roberts<br>(Arolygydd Tîm) | Cwestiwn Allweddol 2,3 a 4; cyfrannu at Gwestiwn Allweddol 1<br>Blynyddoedd Cynnar, Mathemateg, Hanes |
| William Owen<br>(Arolygydd Lleyg) | Cyfrannu at Gwestiynau Allweddol 1,3 4 a 7 |
| Mrs Einir Davies | Enwebai'r ysgol |

**Contractwr**

Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

### Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, y staff a'r disgyblion am eu cydweithrediad drwy gydol yr arolygiad.